OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 3303

## Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014

## RHAN 1

## CYFLWYNIAD

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Ionawr 2015.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â physgod byw yng Nghymru.

(4) Mae rheoliad 17 yn gymwys mewn perthynas â physgod byw ac wyau byw o bysgod yng Nghymru.

(5) Mae rheoliad 18 yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cadw" ("*keeping*"), mewn perthynas â physgod, yw bod â physgod, bod yn berchen arnynt neu eu rheoli mewn dyfroedd mewndirol;

mae "cerbyd" ("*vehicle*") yn cynnwys ôl-gerbyd;

ystyr "y Corff" ("*the Body*") yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

ystyr "dyfroedd mewndirol" ("*inland waters*") yw unrhyw ddŵr o fath a bennir yn adran 221 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**) ac eithrio nad yw'n cynnwys pyllau gardd sy'n llai na 0.4 hectar o faint, nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer pysgota, nad oes ganddynt gysylltiadau i ddyfroedd eraill ac sydd wedi eu lleoli o fewn cwrtil eiddo preswyl;

ystyr "mangre" ("*premises*"), ac eithrio yn rheoliad 3, yw—

(a) unrhyw dir, ynys artiffisial, gosodiad neu adeilad morol,

(b) unrhyw gerbyd, neu

(c) unrhyw lestr;

mae "llestr" ("*vessel*") yn cynnwys unrhyw long neu gwch neu lestr arall a ddefnyddir ar gyfer mordwyo, ac unrhyw hofrenfad, llong ymsuddol neu fad arnofiol arall, ond nid yw'n cynnwys unrhyw beth sy'n gorwedd yn barhaol ar wely'r môr, neu sydd wedi ei atodi'n barhaol iddo;

ystyr "pysgod" ("*fish*") yw pysgod neu silod pysgod ac mae'n cynnwys molysgiaid a chramenogion;

ystyr "trwydded" ("*permit*") yw trwydded a roddir neu sydd i'w rhoi o dan reoliad 6(l).

(**1**) 1991 p. 57.

**Eithriadau**

**3.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â gweithgareddau sy'n digwydd—

(a) ar fangre busnes cynhyrchu dyframaethol a awdurdodir o dan reoliad 6 o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009(**2**); neu

(b) yn ystod y broses o gludo rhwng—

(i) mangreoedd unrhyw fusnes o'r fath; neu

(ii) mangre un busnes o'r fath a mangre busnes arall o'r fath.

(**2**) O.S. 2009/463.